**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 436**
**18 Mawrth, 2020 - Cyfarfod dros Skype**

**Presennol:**
**Aelodau Anweithredol y Bwrdd:**

| | | |
|---|---|---|
| | Rhodri Williams | (darpar Gadeirydd) |
| | Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |

**Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol Cysgodol:**

| | | |
|---|---|---|
| | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |

**Hefyd yn bresennol:**
**Staff S4C:**

| | | |
|---|---|---|
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Eilir Jones | (Pennaeth Dadansoddi) |
| | Catrin Whitmore | (Pennaeth Adnoddau Dynol) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Ymddiheuriadau:** | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Cadeirydd dros dro) |

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd Unedol S4C ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Effaith COVID-19**

Esboniodd EM fod Cynllun Coronavirus S4C mewn lle ac yn cael ei ddiwygio'n rheolaidd. Roedd tri phrif faes, sef:

1) Staff a gweithle;
2) Technegol a darlledu
3) Cynnwys.

Roedd y Tîm Rheoli ac eraill yn cwrdd â thrafod yn ddyddiol am 9 y bore dros Skype. Roedd hefyd galwad bob bore gyda'r BBC. Roedd mwyafrif staff S4C yn gweithio o adref erbyn hyn ac eithrio'r rheiny yn y timoedd darlledu a technegol oedd yn gweithio o Barc Tŷ Glas.

Cytunwyd dylid diweddaru'r Bwrdd yn gyson ar gynnydd a phrif ddigwyddiadau'r wythnos

Amlinellodd AR effaith COVID-19 ar gynnwys ac amserlen y gwasanaeth hyd yn hyn. Esboniodd fod llawer o waith i edrych ar yr effaith posib i'r amserlen yn y tymor byr, canolig a hir. Roedd cynllun mewn lle ond roedd y sefyllfa yn newid yn gyflym ar hyn o bryd.

**[Crynodeb:** Roedd effaith yn barod ar yr amserlen yn sgil canslo digwyddiadau chwaraeon a chynyrchiadau'n stopio neu'n cael eu gohirio. Yn y tymor canolig, byddai canslo digwyddiadau'r haf yn cael effaith arwyddocaol ar yr amserlen.

Cafwyd trafodaeth am lenwi'r oriau a gollwyd yn y tymor hir a'r cyfle i arbrofi gyda'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod yma. Roedd y tîm comisiynu eisoes yn edrych am syniadau i lenwi'r bylchau.

Y flaenoriaeth oedd sicrhau gwasanaeth i'r gynulleidfa fydd yn sicrhau fod y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ar gael, yn cynnig syniadau a chymorth i'r gynulleidfa ar sut mae ymdopi ac yn olaf yn cynnig adloniant a diddanwch.]

Nodwyd pwysigrwydd ymgysylltu a chyfathrebu gyda'r gynulleidfa i esbonio beth mae S4C wrthi'n gwneud i gynnal y gwasanaeth a hefyd yn cynnig yn ystod y cyfnod yma. Cytunwyd hefyd fod angen gwneud mwy yn ystod y cyfnod yma i hyrwyddo S4C Clic gan gynnwys promos yn ffocysu ar Clic fel gwasanaeth.

3. **Cyllideb a Chynnwys 2020/21 & 2021/22**

**[Crynodeb:** Yn sgil y datblygiadau gyda COVID-19 ers ysgrifennu'r papur ar y pwnc uchod, bu rhaid ail edrych ar yr opsiynau a amlinellwyd. Roedd y sefyllfa ddigynsail bresennol yn cyflwyno heriau ond hefyd yn cynnig cyfleoedd i arbrofi gyda'r gwasanaeth. Mae'r gwaith yn parhau.]

4. **Effaith 'Lockdown' posib ar S4C**

Trafodwyd goblygiadau posib unrhyw lockdown ar S4C a'r her i gadw'r gwasanaeth i fynd. Roedd angen trafodaethau gyda DCMS a Llywodraeth Cymru ynglŷn ag effaith lockdown yng Nghaerdydd ar ddarlledu'r gwasanaeth.

**[Crynodeb:** Roedd angen sicrhau fod S4C, fel y BBC a darlledwyr eraill, yn eithriad i'r "lockdown" a bod staff angenrheidiol, gan gynnwys staff ein cyflenwyr, yn gallu parhau i deithio a gweithio allan o adeiladau penodol fel Parc Tŷ Glas. O ran yr arlwy, dylai S4C ffocysu yn benodol ar wasanaethau Newyddion, rhaglenni "Pobl", megis Prynhawn Da a Heno, rhaglenni Plant a rhaglenni Addysg. Yn ogystal, dylid darparu'r modd i wylio nifer fawr o raglenni megis Bocs Set.]

5. **Prosiect Cydleoli**

Ymunodd OE a'r cyfarfod yn dilyn galwad gyda BBC Cymru. Nodwyd bod y BBC yn sgil COVID-19 wedi penderfynu bod angen symud rhai o'i staff technegol nôl i Barc Tŷ Glas a Llandaf o'r Sgwâr Canolog. Y gobaith yw y byddai hyn yn cynorthwyo gyda chadw S4C a sianeli'r BBC ar yr awyr. Byddai rhywfaint o'r gwaith yn parhau yn Sgwâr Canolog ond yn anorfod byddai gwaith ar y prosiect yn arafu. Roedd Owen wedi cytuno gyda'r BBC mai'r flaenoriaeth glir oedd cadw ein systemau darlledu i weithio.

Cytunwyd bod angen ystyried a thrafod gyda'r BBC a oedd angen/modd i rai o'r staff a oedd i fod i adael dros y misoedd nesaf i aros.

Byddai angen hefyd i OE ac AR drafod blaenoriaethau gyda Rhodri Talfan Davies a Siân Gwynedd o BBC Cymru.

6. **Y Sector**

**[Crynodeb:** Byddai negeseuon rheolaidd yn mynd i'r sector yn ogystal â chyfarfod sector gyda'r cwmnïau cynhyrchu dros Skype yn yr wythnosau nesaf. Roedd S4C yn edrych ar ba gymorth o'r llywodraeth oedd ar gael i gwmnïau. Roedd y Prif Weithredwr eisoes wedi ysgrifennu at Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru.]

7. **Cyrhaeddiad**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd EJ bapur ar gyrhaeddiad yn ystod y cyfnod presennol. Fel y gellid disgwyl, roedd Newyddion yn perfformio'n dda ond absenoldeb chwaraeon yn cael effaith. Cytunwyd y byddai'n amhosib mesur effaith yr amserlen newydd oherwydd y cyd-destun newydd.]

8. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Yn ystod yr argyfwng hwn, nododd RhW ei bod yn synhwyrol i aelodau gysylltu yn gyson a gofyn unrhyw gwestiynau drwy e-bost os cyfyd unrhyw beth.